



Mae Doethineb Gwledig yn brosiect pum mlynedd wedi'i ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr sy'n archwilio effaith gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu harwain gan bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn yr Alban a Chymru.

Fel rhan o uchelgeisiau'r prosiect, mae partneriaid Doethineb Gwledig sef, Outside the Box, Volunteering Matters Cymru a'r Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi) yn rhannu'r dysgu i alluogi pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig i ddefnyddio ac elwa o'r hyn sy'n gweithio.

Amcanion y Prosiect

Mwy o bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn cael llais ac yn arwain newid yn eu cymunedau lleol.

Mwy o bobl hŷn yn cael y gefnogaeth maen nhw ei heisiau, sy'n gweithio'n dda iddyn nhw, drwy ystod ehangach o wasanaethau cymunedol.

Polisiau yn yr Alban a Chymru yn cefnogi pobl hŷn i barhau i fyw yn y cymunedau gwledig y maent yn eu hadnabod ac annog cyfraniad pobl hŷn i'w cymunedau.

Profiad pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, a'u cymunedau, yn cyfrannu at dwf cymunedau ledled y DU sy'n gwerthfawrogi, yn cynnwys ac yn cefnogi pobl hŷn.



Rural Wisdom Communities

Yr Alban:
Eaglesham
Highland Perthshire
North Angus


Cymru:
Coed-llai
Aberdaugleddau

Darllen Pellach
www.ruralwisdom.org

Ein Darganfyddiadau

Mae Cynghorau a Phartneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hoffi'r ffyrdd creadigol y mae Doethineb Gwledig wedi cyrraedd ac ymgysylltu â phobl hŷn ac eraill mewn cymunedau gwledig bach i wella cysylltiadau â'r sector cyhoeddus.

Gall Doethineb Gwledig adeiladu ar y rôl hon i ehangu dealltwriaeth y sector cyhoeddus o werth gwrando'n uniongyrchol ar bobl hŷn a datblygu sgiliau ar gyfer cyd-gynhyrchu.



Heriau

- Nid yw rhai pobl eisiau ymrwymo i rôl arweiniol.
- Nid yw rhai pobl yn teimlo bod ganddynt yr hyder i ymgymryd â rôl arweiniol.
- Mae yna ymwybyddiaeth sylfaenol ymhlith pobl hŷn, bod angen pobl iau, os yw cymunedau yn mynd i ffynnu a chynnal gweithgareddau, felly wrth i'r gymuned heneiddio mae yna bobl sy'n gallu cymryd drosodd.
- Mae'n bwysig datblygu mwy o gyfleoedd i bobl ar draws y cenedlaethau i fod gyda'i gilydd. Mae pobl o oedran gweithio yn aml yn absennol o'r gweithgareddau hyn am nifer o resymau.
- Nid yw rhai pobl yn teimlo bod ganddynt y profiad i ymgymryd â rôl arweiniol.
- Mae yna rywffaint o ddryswch o gwmpas pa asiantaeth sy'n gyfrifol am beth o ran darparu a gwella gwasanaethau ac mae hynny'n gwneud ymgysylltu yn anodd.



Pwy sydd angen cymryd rhan?



Pobl o bob oed

Mae yna ymwybyddiaeth sylfaenol ymhlith pobl hŷn, bod angen pobl iau, os yw cymunedau yn mynd i ffynnu a chynnal gweithgareddau, felly wrth i'r gymuned heneiddio mae yna pobl sy'n gallu cymryd drosodd

Lefelau cymorth amrywiol

Mewn rhai achosion, mae'r preswylwyr wedi bod angen ychydig bach o fewnbwn er mwyn dechrau arni. Mewn achosion eraill, mae'r Gweithiwr Datblygu wedi gorfod arwain pob sesiwn er mwyn sicrhau bod y grŵp yn dal i fynd

Gweithiwr datblygu

Mae nifer o sgiliau a phriodoleddau wedi cael eu hadnabod sy'n bwysig ar gyfer y swydd hon: bod yn frwdfrydig, bod yn agos atoch a sgiliau cyfathrebu cryf i sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth

Gwirfoddolwyr a Rolau Cymunedol

Gwnaeth yr ymgynghoriadau cymunedol amlygu'r angen i gynnwys mwy o wirfoddolwyr o bob oed mewn gweithgareddau cymunedol

Mae Doethineb Gwledig wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gefnogi pobl hŷn i gael mynediad at wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion ac yn arwain newid yn eu cymunedau, ond mae hyn wedi cymryd amser. Er mwyn i hyn barhau, mae'n bwysig cynnal y gweithgaredd a gefnogir gan Doethineb Gwledig trwy gapasiti ac adnoddau lleol. Mae cyllid yn ffactor ychwanegol i gynaliadwyedd grwpiau.

Capasiti ac Adnoddau Lleol

Amser

Cyllid ar gyfer Grwpiau

Cynaliadwyedd

Cwestiynau ar gyfer flwyddyn nesaf...

Mae'r gwersi o'r flwyddyn gyntaf wedi arwain at sawl cwestiwn pwysig. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i archwilio'r rhain yn yr ail flwyddyn:

01

Sut allwn ni annog mwy o berchnogaeth gymunedol ar fentrau lleol, gan gynnwys pobl hŷn yn arwain y newid?

02

Sut y gellir cynnal gweithgareddau/ mentrau Doethineb Gwledig cyfredol y tu hwnt i'r cyllid presennol i ymgorffori gweithio ar y cyd a chyd-gynhyrchu?

03

Sut allwn ni ddefnyddio ac adeiladu ar y cysylltiadau presennol â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i wneud y mwyaf o effaith Doethineb Gwledig ar strategaethau a rhaglenni cenedlaethol a Phrydeinig?

Darllen Pellach
www.ruralwisdom.org

Cysylltwch â:
Carol Clifford
Arweinydd Rhaglen Dros Dro (Heneiddio â Phobl Hŷn)
carol.clifford@ndti.org.uk

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi)
Llawr Cyntaf
30-32 Westgate Buildings
Bath BA1 1EF
Ffôn: 01225 789135